

GWYLIWCH EICH HUNANIAETH/IDENTITI GRISTNOGOL!

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli y gall ein hunaniaeth/identiti Gristnogol gael ei pheryglu waeth pa mor hir 'rydym wedi bod yn y gwirionedd. Anogwch bawb sydd wedi bod yn gwasanaethu Jehofah i sefyll yn gadarn yn wir addolwyr. Rhowch help arbennig i Gristnogion ifanc sydd wedi'u magu mewn teuluoedd sy'n Dystion i sylweddoli'r fraint sydd ynghlwm wrth gael eu nabod fel Cristnogion a'r angen i warchod y safiad hwnnw

GWASANAETHU YN DYSTION I JEHOFAH — BRAINT HYNOD (7 mun.)

Dyna fraint yw cael eich cyfri'n un mae Jehofah wedi gweld yn dda cael perthynas arbennig ag ef (Ioan 6:44)

“Y mae'r Arglwydd [“Jehovah,” *NW*] yn “adnabod y rhai sy'n eiddo iddo,” yn unigol ac fel cyfangorff, a braint yw fod Duw yn ein nabod mewn modd mor bersonol agos (2Tim 2:19; 1Cor 8:3)

Onid ydym wrth ein bodd cael bod yn rhan o'r unig bobl gyfundrefnedig ar y ddaear mae Jehofah yn eu cym-eradwyo?

Mae ein hunaniaeth/identiti fel addolwyr yn ein gosod ar wahân i'r byd (Mal 3:18; Ioan 17:16)

Mae pobl yn ein nabod ni am ein bod yn dilyn gorchymyn Iesu i bregethu “yr Efengyl hon am y deyrnas” (Math 24:14)

Mae'r cariad sydd gennym y naill at y llall yn ein gosod ni ar wahan yn ddisgyblion Iesu (Ioan 13:35)

Mae'n hymddygiad rhagorol yn ein galluogi ni i ddisgleirio fel goleuadau mewn byd ysbrydol dywyll (Phil 2:15)

Yn wir, braint hynod yw cael ein nabod yn Dystion Jehofah! (Eseia 43:10)

Fodd bynnag, mae hi'n her cadw'n hunaniaeth/identiti ysbrydol fel gwir Gristnogion yn ystod yr “amserau enbyd” yn enwedig i'r rhai ifanc (2Tim 3:1)

PETHAU SY'N BYGWTH EIN HUNANIAETH/IDENTITI GRISTNOGOL (7 mun.)

Er mwyn parhau cael ein nabod gan Jehofah yn eiddo iddo, mae'n rhaid inni gadw ein “dillad” amdanom a dangos mai dilynwyr Iesu Grist ydym (Dat 16:15; *re* 231-2)

Bydd ein hunaniaeth/identiti Gristnogol yn pylu neu ddiplannu os ildiw'n i'r pwyslais aflach mae'r byd yn ei roi ar yr hunan

Mae'r rhai sy'n ildio yn aml yn wynebu argyfwng hunaniaeth/identiti

Maen nhw'n cael cyfnodau o hunan-amheuaeth, pan maen 'nhw'n ail werthuso'u hamcanion, gan honni fod yn rhaid iddynt eu “canfod eu hunain” neu “dod i wir nabod nhw'u hunain”

Ar adegau mae ymchwilio am hunaniaeth/identiti fel hyn wedi golygu ymollwng pob cyfrifoldeb a moes gadarn

Os na fyddwn yn wylidwrus, gallwn ddod o dan ddylanwad y byd

Dechreuodd Asaff y Lefiad amau gwerth dilyn cwrs uniawn (Salm 73:1-14; *w*99 9/1 21-2)

Yn ei dro, daeth Asaff i ddeall golygwedd Jehofah ac fe ail-gyneuodd ei werthfawrogiad o'i freintiau fel un oedd yn addoli Jehofah (Salm 73:23-28)

Fel rhai sy'n addoli Duw, mae'n hanfodol ein bod ninnau'n cadw'n gyson ymwybodol o'n hunaniaeth/identiti

Ni fydd gan berson gyfeiriad i'w fywyd onibai ei fod yn gwerthfawrogi pwy ydyw a beth yw ei le priodol yn arfaeth Duw (Eff 4:14; Iago 1:6-8; Dat 3:16)

A NINNAU'N DYSTION JEHOFAH, FE WYDDOM PWY YDYM NI (8 mun.)

Mae'r Ysgrythurau'n dweud wrthym beth yw'n prwpas mewn bywyd (Dat 4:11)

Mae gwir Gristnogion yn byw i wneud ewylls Duw (1Pedr 4:2)

Mae'r Beibl yn dangos beth yw'r gwerthoedd, y rhinweddau, y safonau, a'r nodweddion a ddisgwylir yn y rhai sydd am gael eu nabod fel Cristnogion (Eff 4:22-24; 1Pedr 2:21)

Yn gyntaf oll, 'rydym yn ein hystyried ein hunain yn wir addolwyr Jehofah

Mae gennym y fraint o fod ymhlith y diweddaraf mewn llinach hir o dystion ffyddlon yn cychwyn gydag Abel (Heb 11:4)

Mae ein hunaniaeth/identiti Gristnogol yn bwysicach nag unrhyw gysylltiadau sy'n ymwneud â theulu, neu hil, neu liw, neu iaith, neu genedl (Gal 3:28)

Mae hi hefyd yn bwysicach nag uchelgais neu ddymuniad personol (Marc 8:34)

Mae cynnal perthynas bersonol â Duw yn hanfodol i wir hunaniaeth/identiti Gristnogol

Chi, bobl ifanc, fedrwch chi ddim cymryd yn ganiataol bod Duw yn eich derbyn chi yn unig am fod eich rhieni'n gredinwyr

Mae'n rhaid i chi fel unigolyn ddod i garu Duw (Math 22:37)

Ond sut medrwn ni ymdopi â'r holl bwysau sydd arnom i droi cefn ar ein hunaniaeth/identiti Gristnogol?

TYSTION FU'N GWARCHOD EU HUNANIAETH/IDENTITI (11 mun.)

Cawn lawer enghraifft yn y Beibl o rai gadwodd eu hunaniaeth/identiti yn addolwyr Jehofah er gwaethaf adfyd neu ieuencid

Treuliodd Joseff flynyddoedd yn gaethwas yn yr Aifft baganaidd

Er hynny, cadwodd ei hunaniaeth/identiti fel gwas i Dduw, drwy fod yn benderfynol o wneud yr hyn wyddai oedd yn iawn (Gen 39:7-10)

Nid anghofiodd y ferch fach o Israeles, a hithau'n gaethferch i Naaman, ei bod yn un oedd yn addoli Jehofah Rhoddodd dystiolaeth gadarn (2Bren 5:1-4)

Rhoddodd Joseia gychwyn i ddiwygiad crefyddol hir-barhaol, atgyweiriodd y deml, ac arwain y genedl yn ôl at Jehofah (2Bren 23:24, 25; w01 4/15 25-8)

Chafodd e mo'i ddenu i ddilyn esiampl lwgr ei dad a'i daid

Nid anghofiodd Daniel a'r tri Hebrëwr eu hunaniaeth/identiti yn weision i Jehofah er eu bod nhw'n gaeth yn yr Aifft

Buont yn ffyddlon i'w huniondeb er gwaethaf pwysau a themtasiwn (*dp* 33-45)

Rhaid i bob Cristion heddiw, boed hen neu ifanc, fod yn benderfynol o gadw'i hunaniaeth/identiti Gristnogol

GWNEWCH EICH HUNANIAETH/IDENTITI GRISTNOGOL YN GADARN (10 mun.)

Mae'r Beibl yn ein hannog ni i roi'r gwirionedd ar brawf (Actau 17:11; Rhuf 12:2; 1Thes 5:21)

Y ffordd i wneud hyn yw astudio'r Beibl yn bersonol, cytuno'n llwyr â'i athrawiaethau, ac ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos ein bod wedi'n "sefydlu'n gadarn yn y gwirionedd," ac nid trwy fynnu blasu'r pethau drwg mae'r byd yn eu cynnig (2Pedr 1:12)

Bydd Gair Duw yn ein helpu ni i wybod beth yw ein galluoedd a'n potensial

Bydd yn datgelu'n cymhellion a'n teimladau dwysaf (Heb 4:12, 13; Iago 1:22-25)

Wrth inni feithrin y "natur ddynol newydd" medrwn ymgynraedd at ein llawn botensial ysbrydol (Eff 4:22-24)

Mae mynychu cyfarfodydd Cristnogol a chael rhan yng ngweithgareddau'r gynulleidfa yn ein helpu i sefydlu'n hunaniaeth/identiti fel Cristion ac i ddeall beth yw'n lle ni yn nhrefn Jehofah (Heb 10:23-25)

Gall gosod nodau ysbrydol megis bod yn fwy penderfynol o astudio'r Beibl, cael mwy o ran yn y gwaith pregethu, ymdrechu i ymgynraedd i fod yn gymwys ar gyfer braint arbennig gwasanaeth llawn-amser, oll ein helpu ni i lawn ddefnyddio'n doniau ysbrydol (1Pedr 4:10)

Gall rhoi gwybod i eraill eich bod yn un o Dystion Jehofah fod yn amddiffyn i chi (*w00* 11/1 13-14)

Peidiwch â theimlo cywilydd oherwydd neges y Beibl (Rhuf 1:16)

Pregethwch i eraill, a pharhau mewn ymddygiad da er mwyn cadw ar wahân i'r byd ac ymwrthod â'i ddylanwad afiach (Diar 20:11; Luc 6:44, 45)

BREINTIAU SY'N DOD O WARCHOD EIN HUNANIAETH/IDENTITI GRISTNOGOL (2 fun.)

Daw llawer o fendithion wrth warchod ein hunaniaeth/identiti Gristnogol:

Y fraint o gael ein cydnabod gan Jehofah (Mal 3:16)

Cyfeillgarwch bersonol gyda Duw (Iago 2:23)

Nodau ffrwythlon ac ymwybyddiaeth eglur o bwrpas

Gobaith dyfodol tragwyddol (Salm 37:9)

Wrth roi y pethau a drafodwyd ar waith, medrwech warchod eich hunaniaeth/identiti Gristnogol a medi bendithion tragwyddol

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a bennwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun a grybwyllir)